north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 11 Rhagfyr 2020**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 11 Rhagfyr 2020

---

**PWNC**

Eitem 5: CYTUNDEB TERFYNOL - DOGFENNAU ATODOL

---

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu'r dogfennau atodol i’r adroddiad a gyflwynwyd i’r Bwrdd, sef y Gofrestr Risg, y Cynllun Monitro a Gwerthuso, y Strategaeth Gwireddu Buddion a'r Strategaeth Rheoli Newid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae’r Bwrdd Uchelgais yn ymrwymedig i gyflawni Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu'r dogfennau sydd angen eu cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth er mwyn cyrraedd Cytundeb Terfynol.

Mae angen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gael trefniadau rheoli effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau y gellir cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd cynnwys yr adroddiad a’r ddogfennaeth yn y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 20 Tachwedd, 2020.

Rhannwyd dogfennau drafft gyda’r ddwy Lywodraeth am sylwadau.

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

---